# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Agenda (256)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mawrth 2007**
**Amser: 2.00pm**


**Eitem 1: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Eitem 2: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**Eitem 3: Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei chyfrifoldebau ac eithrio busnes**

**Eitem 4: Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig**

**Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii)**

**Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Conversion of Framework Powers) Order 2007 o dan Reol Sefydlog 26**

**Eitem 7: Cynnig i gymeradwyoo dan Reol Sefydlog 29 Egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw anghenion cyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2007/08 yn ormodol**

**Eitem 8: Dadl ar Gyflogaeth gan y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**

**Eitem 9: Dadl fer a ohiriwyd o 17 Ionawr 2007: NDM3398 Sandy Mewies (Delyn): "O Geiniog i Geiniog" – Pam bod llythrennedd ariannol yn bwysig**

**Eitem 10: Dadl fer - Leanne Wood (Canol De Cymru): Cymunedau mwy diogel**


....................................

### Eitem 1: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder

**Cymdeithasol ac Adfywio**

.................................

## Eitem 2: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

.................................

## Eitem 3: Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei chyfrifoldebau ac eithrio busnes

.................................

## Eitem 4: Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig

.................................

## Eitem 5: Cynnig i Gymeradwyo’r Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

**NDM3518 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 y gosodwyd drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2007.

**NDM3519 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau parthed Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a

2. Gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo bod Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2007.

**Ategol Dogfennau:**

Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau

.................................

## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Conversion of Framework Powers) Order 2007 o dan Reol Sefydlog 26

**NDM3520 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Conversion of Framework Powers) Order 2007, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

Mae priodoldeb y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

**Ategol Dogfennau:**

National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Conversion of Framework Powers) Order 2007 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

.................................

## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29 Egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw anghenion cyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2007/08 yn ormodol

**NDM3523 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried Egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw anghenion cyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2007/08 yn ormodol, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau Cynulliad ar 28 Chwefror 2007.

*Noder: Cyflwynir y ddeddfwriaeth hon mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu yn unig.*

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

**Gwelliant - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn mynegi pryder bod methiant y Swyddfa Gartref i ariannu gwasanaethau gwarchod, plismona cymunedol a chwyddiant yng nghyllidebau'r heddlu'n rhoi mwy o faich eto ar y sawl sy'n talu'r dreth gyngor."*

**NDM3524 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo Egwyddorion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn penderfynu, yn unol ag Adran 52B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a yw anghenion cyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2007/08 yn ormodol, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau Cynulliad ar 28 Chwefror 2007.

*Noder: Cyflwynir y ddeddfwriaeth hon mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu yn unig.*

**Ategol Dogfen:**

Egwyddorion a Bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**……………………………**

## Eitem 8: Dadl ar Gyflogaeth gan y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**NDM3521 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r cynnydd sydd ar droed i sicrhau rheolaeth fwy effeithiol a chydlynol dros wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

*Yn unol â pharagraff 5.9 o'r canllawiau ar Gynigion a Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal ar wahân:*

(1)
(2,6,7,8,9)
(3,4,5)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

> *"1. Yn nodi bod cynigion Llywodraeth y DU i ganoli swyddi sector cyhoeddus yng Nghymru yn groes i strategaeth adleoli’r Cynulliad a, thrwy hynny, yn ei thanseilio, a*
>
> *2. Yn galw ar Lywodraeth y Du i ailystyried ei chynigion canoli yn wyneb eu heffaith andwyol ar yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd."*

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu "Yn nodi'r cynnydd sydd ar droed" ac yn lle hynny rhoi:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i roi argymhellion adolygiad Beecham, 'Ar Draws Ffiniau', ar waith mewn modd cynhwysfawr."*

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn nodi’r galw yn adolygiad Beecham, 'Ar Draws Ffiniau', am economi gymysg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus."*

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn nodi bod angen comisiynu mwy o wasanaethau cyhoeddus ar sail ranbarthol."*

**Gwelliant 5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn nodi bod angen mwy o gydweithio rhwng asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus."*

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn gresynu at y colli swyddi yn swyddfeydd Cyllid a Thollau EM mewn cymunedau ledled Cymru, o ganlyniad i dargedau torri costau'r Trysorlys."*

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn gresynu at y diffyg meddwl a gweithredu cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad o ran lleoli swyddi'r sector cyhoeddus yng Nghymru."*

**Gwelliant  8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn croesawu camau Llywodraeth y Cynulliad i ledaenu swyddi'r sector cyhoeddus ledled Cymru."*

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am greu Gwasanaeth Sifil annibynnol i Gymru i annog sgiliau lefel uchel a'u cadw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru."*

**………………………………**

## Eitem 9: Dadl fer a ohiriwyd o 17 Ionawr 2007

**NDM3398 Sandy Mewies (Delyn):**

**"O Geiniog i Geiniog" - Pam bod llythrennedd ariannol yn bwysig.**

**………………………………**

## Eitem 10: Dadl fer

**NDM3522 Leanne Wood (Canol De Cymru):**

Cymunedau mwy diogel.

……………………………….

## Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.30pm

……………………………….

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 13 Mawrth 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**